Bernard Jenkin AS
Cadeirydd
Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion
Cyfansoddiadol
Tŷ'r Cyffredin
Llundain SW1A 0AA

13 Rhagfyr 2017

Annwyl Bernard

**Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Medi 2017. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb ac ysgrifennaf atoch fel Cadeirydd newydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Darllenais adroddiad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol ar gysylltiadau rhyng-sefydliadol yn y DU gyda chryn ddiddordeb . Fel y gwyddoch efallai, rydym yn cynnal ymchwiliad i waith rhyng-sefydliadol ar hyn o bryd. Dechreuodd yr ymchwiliad dan y teitl ' Llais cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan a sefydliadau datganoledig o ddifrif ym mis Chwefror 2017. Rydym wedi cwblhau'r broses o gasglu tystiolaeth ac wrthi'n drafftio'r adroddiad ar hyn o bryd gyda'r bwriad o'i gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Byddwn yn falch o rannu hwn gyda chi pan fydd ar gael.

Bydd gennych ddiddordeb mewn gwybod ein bod wedi cael ymateb gan Robin Walker AS, Is-ysgrifennydd Seneddol yn yr adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, i'n llythyr at David Davis ar 31 Gorffennaf, a oedd yn nodi ymateb cychwynnol y Pwyllgor i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Wedi hynny, rhoddodd Robin Walker dystiolaeth, ynghyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Gwir Anrh Alun Cairns AS mewn cyfarfod a gynhaliwyd gennym ar y cyd

â Phwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad Cenedlaethol ar 6 Tachwedd. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar ein gwefan.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i drafod gyda chi faterion yn ymwneud â chysylltiadau rhyng-sefydliadol a Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'i oblygiadau i ddatganoli. Rwyf yn bwriadu dod i'r fforwm rhyng-seneddol ar Brexit yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Ionawr 2018, ac roeddwn yn meddwl tybed a allem drefnu i gyfarfod yr adeg honno pe bai hynny'n bosibl.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.